Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565s
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Elin Jones AS,
Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Copi i: Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd; a Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Gorffennaf 2022

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Annwyl Lywydd,

Diolch am eich llythyr yn ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch amserlen arfaethedig Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni; y bedwaredd flwyddyn yn olynol y mae'r amserlen arfaethedig wedi lleihau'r amser sydd ar gael i'r Senedd ymgymryd â'i waith craffu.

Er bod y Pwyllgor yn derbyn bod Llywodraeth Cymru yn wynebu ansicrwydd o ran ei sefyllfa ariannu ei hun, credwn fod cwtogi'r broses yn cael effaith ddifrifol: mae'n amharu ar allu holl bwyllgorau'r Senedd i gynnal sesiynau tystiolaeth a dylanwadu ar benderfyniadau'r llywodraeth ynghylch y gyllideb ac yn ei gwneud yn anodd i randdeiliaid fod yn rhan o'r broses graffu.

Am y rheswm hwnnw, os bydd oedi cyn cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft, mae'r Pwyllgor yn dymuno gohirio'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad y Pwyllgor tan ddydd Llun 13 Chwefror, a chynnal y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft y diwrnod wedyn, sef 14 Chwefror. Rydym yn credu bod hwn yn gais rhesymol a chymesur a fyddai'n rhoi amser i Lywodraeth Cymru gynnwys barn y pwyllgorau yn y Gyllideb Derfynol cyn y caiff ei gosod ar 28 Chwefror.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y sicrwydd a gafwyd gan y Trefnydd a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ochr yn ochr ag amserlen y gyllideb eleni. Yn benodol, rydym yn croesawu'r ffaith bod y Trefnydd wedi ymrwymo i newid amserlen y gyllideb, yn unol â Rheol Sefydlog 20.6, cyn

gynted â phosibl ar ôl cael gwybod a fydd Llywodraeth y DU yn cynnal digwyddiad cyllidol yr hydref. Rydym hefyd yn falch o gael sicrwydd y caiff y Gyllideb Ddrafft ei chyhoeddi cyn pen pedair wythnos ar ôl y digwyddiad hwnnw.

Er nad yw Rheol Sefydlog 20.6 yn pennu rôl i'r Pwyllgor os newidir yr amserlen, rydym yn galw ar y Trefnydd a'r Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud ag unrhyw newidiadau, a hynny cyn gynted â phosibl - gan gynnwys dyddiad digwyddiad cyllidol Llywodraeth y DU yn yr hydref a'i effaith debygol ar yr amser a fydd ar gael i graffu ar y gyllideb yn y Senedd.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at ystyried cyfleoedd craffu cyn y gyllideb gyda'r Gweinidog yn yr hydref. O gofio hynny, hoffem estyn gwahoddiad ffurfiol i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddod i sesiwn dystiolaeth cyn y gyllideb gyda'r Pwyllgor ar 29 Medi a bydd y Clerc yn cysylltu â swyddogion y Gweinidog i drafod y trefniadau ymarferol. Bydd sesiynau ychwanegol gyda'r Prif Economegydd ac unigolion eraill a awgrymir, hefyd yn rhoi cyd-destun i'r Pwyllgor cyn iddo ystyried y Gyllideb Ddrafft yn ffurfiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

At hyn, rydym yn credu y bydd sesiynau ychwanegol o'r fath yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried sut y mae'r Gweinidog yn ymateb i'r materion a godir yn y ddadl ynghylch blaenoriaethau'r gyllideb ar 13 Gorffennaf, ac yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid y bydd y Pwyllgor yn eu cynnal dros yr haf. Bydd hefyd yn gyfle i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sefyllfa ariannu bresennol Llywodraeth Cymru ac effaith chwyddiant ar ei chynlluniau ar gyfer y gyllideb.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.